# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cardiff and the Vale Community Homecare**

**Tŷ Heulog**
**Heol y Bont-faen**
**Tonysguboriau**
**CF72 8FH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn dros dair wythnos gyda'r ymweliad diwethaf â'r safle ar 8 Mehefin 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cardiff and the Vale Community Homecare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Hafod Housing Association Ltd |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth hwn ers cael ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae Gwasanaeth Cardiff and the Vale Community Homecare, yn darparu gofal a chymorth ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, mewn safleoedd ar wahân a elwir yn 'gynlluniau'. Yn rhai o'r cynlluniau, Hafod Housing Association sy'n darparu'r llety, ond mae hwn yn cael ei ddarparu gan ran ar wahân o'r sefydliad ac nid yw'n rhan o'n harolygiad. Darperir gofal a chymorth i bobl o bob oed ac sydd ag anghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sydd angen cymorth ar gyfer dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.

Mae unigolyn cyfrifol wedi'i benodi gan y darparwr gwasanaeth i fonitro ansawdd y gofal ac mae'n cyflawni ei ddyletswyddau â diwydrwydd dyladwy. Mae rheolwr ar waith sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae gan bob cynllun gydlynydd neu arweinydd tîm sydd â chyfrifoldebau rheoli. Nid yw'r model rheoli presennol yn gweithio'n dda o fewn y gwasanaeth ac mae angen i'r darparwr gwasanaeth ei adolygu i atal effaith ar y bobl; cynghorir ni bod hyn yn cael ei wneud.

Ar draws y gwasanaeth cyfan, mae gofal yn cael ei ddarparu yn bennaf yn unol â chynlluniau gofal clir, ac mae rhai cynlluniau â safonau cyson uchel ym mhob maes gofal. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd o'u gofal a gallant ddangos tystiolaeth eu bod wedi cyflawni canlyniadau da. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys pan fo angen. Mae angen gwella'r broses o roi meddyginiaeth mewn rhai cynlluniau gan nad yw o safon gyson uchel ar draws y gwasanaeth a gallai hyn fod yn risg i'r bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r gweithwyr gofal yn garedig, yn dosturiol ac wedi'u hyfforddi'n dda. Maent yn dangos parch at yr unigolion ac yn darparu lefel o ofal sy'n hybu annibyniaeth. Mae elfennau o'r

gwasanaeth yn rhagorol, yn enwedig y gwaith gyda phobl sy'n dychwelyd yn llwyddiannus i fyw yn y gymuned ar ôl cael cymorth i reoli eu dibyniaethau.

## Llesiant

Mae darparwr y gwasanaeth yn hysbysu'r bobl am y gwasanaeth trwy ddogfen o'r enw 'Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.' Ar y cyfan mae hwn yn glir ond gallai gynnwys gwybodaeth fwy penodol am feddyginiaeth i osgoi camddealltwriaeth. Mae gan y bobl wybodaeth am sut i leisio pryderon neu gwynion am y gwasanaeth os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ymgynghorwyd â'r bobl drwy'r gwasanaeth, ar draws y pum cynllun gwahanol, ac roedd copïau o'r wybodaeth gan bob un ohonynt. Yn ystod yr ymgynghoriadau, roedd pawb yn hapus ar y gofal y maent yn ei gael, gyda rhai yn nodi, "*fyddwn i'n newid dim,"* pan ofynnwyd sut y gallai'r gwasanaeth wella.

Yn ystod y pandemig, nid yw wedi bod yn bosib cynnal cyfarfodydd er mwyn i'r bobl allu cyfrannu at ddarpariaeth y gwasanaeth, ond mae hyn yn cael ei ailddechrau. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi parhau â'i ddyletswyddau drwy'r pandemig, gan ymgynghori â'r bobl i sefydlu ansawdd y gofal a ddarperir, i wrando ar unigolion a gweithredu os oes angen. Mae cyfle i'r bobl roi sylwadau ar eu gofal a bod yn rhan o adolygiadau. Mae hyn yn gyson ar draws y gwasanaeth.

Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi o ran diogelu'r bobl sy'n agored i niwed ac maent yn gwybod sut i leisio pryder os oes ganddynt un. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn. Mae'r bobl yn byw mewn ffordd maent yn ei ddewis, yn mynd lle y mynnant, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae'r darparwr gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg, a lle bo'n bosibl, darparu cymorth gofal trwy gyfrwng y Gymraeg os yw hyn wedi'i nodi fel rhan o'r broses asesu.

Mae gan y bobl fynediad at weithwyr iechyd proffesiynol a lle mae cynlluniau gofal yn nodi'r angen, cânt eu cefnogi i fynd i apwyntiadau. Lle nodir yn y cynllun gofal, bod angen rhoi meddyginiaeth, mae'r gwasanaeth yn darparu'r cymorth hwn, ond mae angen gwelliant mewn rhai cynlluniau o ran cofnodi hyn er mwyn atal camgymeriadau rhag cael eu gwneud. Mae un cynllun yn dangos safonau eithriadol o uchel yn y gwaith o roi meddyginiaeth ac mae'r darparwr gwasanaeth yn ystyried sut i rannu'r arfer gorau hwn â chynlluniau eraill yn y gwasanaeth.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu disgrifio'n gyson gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fel "*halen y ddaear"* a "*gwych."* Maent yn dangos parch i'r bobl ac yn cynnal cydraddoldeb. Mae'r gweithwyr gofal yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol ag y gallant, gan gynnwys mewn gwaith, addysg ac ymgysylltiad cymunedol os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn. Mae'r amseroedd gofal a chymorth wedi cael eu haddasu oherwydd pandemig COVID-19, ac mewn rhai cynlluniau, oherwydd trosiant mawr y staff; ond y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei ddatrys yn fuan wrth recriwtio staff newydd. Mae'r bobl wedi dangos dealltwriaeth o'r sefyllfa, ac nid ydynt yn adrodd am unrhyw effaith wirioneddol o ganlyniad i'r newidiadau. Disgwyliwn i'r darparwr gwasanaeth ystyried y model rheoli presennol er mwyn cefnogi'r

rheolwr cofrestredig, y cydlynydd a'r arweinwyr tîm yn well i sicrhau bod lefelau staffio yn gwella'r gofal a'r cymorth. Mae hwn yn rhan o faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal i bobl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu gweld yn dosturiol ar draws y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym: "*Maen nhw'n mynd gam yn ymhellach"* er enghraifft, "*Mae'r staff yn siopa yn eu hamser eu hunain."* Mewn un cynllun lle mae'r bobl yn cael eu cefnogi i reoli eu dibyniaethau, dywedodd person wrthym: "*Does dim ots pwy ydych chi, maen nhw'n trin pawb yr un peth."* Yn yr un cynllun hwn, dywedwyd wrthym, "*Mae'r gofal yn wych, fyddwn i ddim am fod yn unlle arall*," a rhoddodd eraill dystiolaeth gadarn o sut, oni bai am y gofal a'r cymorth a gawsant gan y tîm ymroddedig o weithwyr gofal, y gallent hyd yn oed fod wedi marw. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel, hyd yn oed pan fyddant yn mynd trwy gyfnod o argyfwng personol. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos dealltwriaeth ac empathi â'r bobl sydd angen gofal arbenigol, yn enwedig yn ymwneud ag iechyd meddwl. Maent hefyd yn dangos parch mewn modd urddasol wrth ddarparu'r gofal a chymorth.

Mae gan y darparwr gwasanaeth systemau ar waith i ystyried a allant ddiwallu anghenion y bobl cyn darparu gwasanaeth, ond ni allwn weld tystiolaeth ddogfennol o hyn yn y cynlluniau personol. Dywedwyd wrthym fod y ddogfen asesu a'r cynllun gofal yn cael eu datblygu ar yr un pryd. Oherwydd hyn, ni allwn weld tystiolaeth o'r holl feysydd sydd angen eu hystyried cyn cynnig gofal i berson, gan gynnwys y 'Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg'.

Ym mhob cynllun o fewn y gwasanaeth, mae cynlluniau personol ar gael i'r bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn adlewyrchu anghenion y person. Maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth bwysig i helpu'r unigolyn, gan gynnwys gweithdrefn gwyno. Mae asesiadau risg ar waith ac maent yn helpu i nodi meysydd lle gallai'r unigolyn neu'r gweithiwr gofal fod mewn perygl, a sut y caiff hyn ei reoli. Mae cynlluniau gofal yn nodi nifer y gweithwyr gofal sydd eu hangen i gefnogi unigolyn, yn ogystal â chanllawiau cam wrth gam ar bob agwedd ar ofal unigolyn. Mae adolygiadau o gynlluniau personol sy'n cynnwys ymgynghori â'r unigolyn yn cael eu cwblhau'n gyson ar draws y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn llwyddiannus wrth gynorthwyo'r bobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. I rai o'r bobl, mae hyn yn golygu eu bod yn gwella i bwynt nad oes angen gofal a chymorth arnynt fwyach.

Mae cydymffurfedd â gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth yn amrywio o gynllun i gynllun ar draws y gwasanaeth. Mewn un cynllun lle mae'r bobl yn cael eu cefnogi â'u dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, gwelsom safon uchel o reoli meddyginiaeth, tra bod y bobl sy'n byw mewn cynlluniau eraill mewn perygl oherwydd diffyg eglurder ynghylch cyflwyno a chasglu presgripsiynau, yn ogystal â gwaith cadw cofnodion gwael. Er nad oes unrhyw effaith ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth, a byddwn yn profi hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae gweithwyr gofal sydd wedi eu hyfforddi'n briodol yn dilyn y cynlluniau gofal yn bennaf i ddarparu gofal a chymorth sydd wedi nodi. Mae rhai cynlluniau yn elwa ar staff cyson, profiadol sy'n adnabod y bobl yn dda, tra bod rhai wedi gweld trosiant mawr yn y staff yn ddiweddar. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi dangos dealltwriaeth o'r addasiadau a wnaed i'w hamseroedd gofal a chymorth er mwyn addasu i'r newidiadau

mewn lefelau staffio. Mae systemau cyfathrebu da ar waith ym mhob cynllun ac ynddynt fanylion ynghylch apwyntiadau sy'n helpu'r bobl i gael mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gwelsom sut mae'r gweithwyr gofal 'uwch' yn monitro darpariaeth y gofal yn ddyddiol ac yn arwain y gweithwyr gofal os bydd problemau'n cael eu nodi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth unigolyn cyfrifol enwebedig sy'n cyflawni ei ddyletswyddau i fodloni gofynion rheoliadol. Mae'n ymweld â'r brif swyddfa gweithrediadau, yn ogystal â phob cynllun, i gael dealltwriaeth o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynhyrchu adroddiadau gofynnol. Mae'r rhain yn ystyried adborth gan y bobl a'r staff i wella'r gwasanaeth, ac yn nodi camau i'w cymryd, yn ogystal ag adolygu camau gweithredu a gwblhawyd eisoes. Mae angen gofal i sicrhau bod y bobl yn aros yn ddienw yn yr adroddiadau, ac mae adroddiadau chwe mis yn cynnwys tystiolaeth o ymgynghori mwy diweddar.

Mae rheolwr yn goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac y mae wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ei brofiad a'i wybodaeth helaeth o reoli gwasanaethau gofal cartref yn ei alluogi i arwain y sefydliad er mwyn sicrhau cydymffurfedd a gwasanaeth da. Mae arweinwyr tîm profiadol sy'n darparu arolygiaeth reolaethol o'r cynlluniau yn effeithiol, ac mae'r bobl a'r gweithwyr gofal yn eu disgrifio fel "*anhygoel.*"

Mae gwybodaeth ar gael i'r bobl sy'n ystyried defnyddio'r gwasanaeth. Mae angen diweddaru hwn a chynnwys gwybodaeth allweddol am roi meddyginiaeth i sicrhau bod unigolion yn deall yr hyn y gall y gwasanaeth ei gynnig, ac i gefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen o ran meddyginiaeth.

Mae polisïau a gweithdrefnau clir a chyfredol ar waith, ac mae'r gweithwyr gofal yn elwa ar gyfnod sefydlu trylwyr a chyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr. Mae'r mwyafrif o'r tîm gofal yn cydymffurfio â'u hyfforddiant a diweddariadau. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hannog a'u cefnogi i gael mynediad at gymwysterau i ddatblygu eu gyrfa. Mae canran fawr o'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Darperir hyfforddiant arbenigol pan fo angen, megis ar gyfer epilepsi, ac mae pob gweithiwr gofal yn cael hyfforddiant ar sut i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel, ac mae dogfennau priodol ar gael i ddangos tystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi. Mae'r gweithwyr gofal yn elwa ar gontractau oriau diffiniedig, ac mae'r rhai sydd â chontract mwy agored yn hapus â hyn. Mae'r sefydliad yn cynnig mynediad i bob gweithiwr at adnodd cymorth i helpu ag unrhyw faterion a allai fod ganddynt, yn ogystal â phecynnau iechyd eraill, fel gofal deintyddol.

Mae angen i'r darparwr gwasanaeth wella'r cymorth cyffredinol ar gyfer yr uwch aelodau o staff. Gwelsom nad oes amser wedi'i neilltuo ar gael i'r uwch aelodau o staff gael goruchwyliaeth un i un a thrafodaethau datblygu â'u rheolwr llinell. Mae'r cyfarfodydd hyn yn bwysig i gefnogi gweithwyr gofal yn eu rôl, ond maent hefyd yn berthnasol i'r arweinwyr tîm, y cydlynwyr a'r rheolwr. Mae'r strwythur rheoli wedi newid, bellach mae disgwyliad afrealistig ar un rheolwr cofrestredig i reoli ardal ddaearyddol fawr lle ceir sawl cynllun ynddo. Mae problemau ag argaeledd arweinydd tîm a chydlynwyr dibrofiad, yn ogystal â chefnogi rhai cynlluniau lle mae heriau eithriadol oherwydd natur y gefnogaeth a ddarperir wedi ychwanegu at y pwysau ar y rheolwr. Nid yw'r rheolwr wedi cael ei wahodd i fod yn

rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch lleoli staff y bydd yn gyfrifol amdanynt, sy'n arwain at broblemau cefnogaeth oherwydd diffyg profiad y staff hyn. Mae effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan nad oes cysondeb o ran eu gweithwyr gofal oherwydd trosiant staff, ac mae rhai yn byw mewn cynlluniau lle na chaiff gweithdrefnau ynghylch rhoi meddyginiaeth eu dilyn, a ddylai gael eu goruchwylio gan y cydlynwyr. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r cyfarwyddwyr ardal wedi nodi'r materion ac maent yn ymwybodol bod angen adolygu'r strwythur rheoli. Maent yn gweithio ar fodel gwell, i roi'r amser sydd ei angen ar y rheolwr i oruchwylio'r cynlluniau'n effeithiol, ac i allu cynnig y cymorth sydd ei angen i'r staff y mae'n yn gyfrifol amdanynt. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau i wella'r cymorth cyffredinol i'r staff er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir; caiff hyn ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r lefelau staffio yn briodol ar y cyfan i ddiwallu anghenion y bobl. Mae uwch-weithwyr gofal yn cynnal archwiliadau ar hap a gwiriadau cymhwysedd i sicrhau bod gweithwyr gofal yn hyderus ac yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth gofal. Mae'r uwch-weithwyr gofal hefyd wedi cofnodi canlyniadau cyfarfodydd goruchwylio ar gyfer y gweithwyr gofal y maent yn eu cefnogi.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes /Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod archwiliadau o brosesau meddyginiaeth yn nodi | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | arferion gwael lle nad yw'r gweithwyr gofal yn dilyn gweithdrefnau ynghylch caffael a chofnodi rhoi meddyginiaeth. | |
| 34 | Nid yw'r strwythur rheoli o fewn y gwasanaeth yn darparu cymorth effeithiol i'r holl staff gofal, gan arwain at oruchwyliaeth a datblygiad gwael ar gyfer y staff a allai effeithio ar y gofal a ddarperir. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/07/2022